**Polisi Aflonyddu Rhywiol yn y Gweithle Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru**

Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru weithle diogel rhag aflonyddu rhywiol, ac i nodi'r camau rhesymol y bydd y Gymdeithas yn eu cymryd i'w hatal, i reoli risgiau, ac i drin cwynion yn deg ac yn brydlon.

Mae'r polisi'n berthnasol i staff y Gymdeithas, aelodau, ymgeiswyr, goruchwylwyr, arholwyr, mynychwyr a chyfrannwyr mewn digwyddiadau neu weithdai, Cyfarwyddwyr y Gymdeithas ac unrhyw berson sy'n rhyngweithio â staff y Gymdeithas yng nghyd-destun gwaith (gan gynnwys ar-lein).

Golyga aflonyddu rhywiol: ymddygiad diangen o natur rywiol sydd, yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, yn torri ar urddas unigolyn neu'n creu amgylchedd sy'n frawychus, yn elyniaethus, yn israddol neu'n dramgwyddus.

Bydd y Gymdeithas yn cymryd y camau canlynol (a'u hadolygu'n rheolaidd) i atal aflonyddu rhywiol:

- **Asesu risg** wrth gynnal arholiadau, digwyddiadau a gweithdai, yn enwedig mewn digwyddiadau cymdeithasol ble mae yno alcohol
- **Rhannu'r polisi** hwn â staff, aelodau, arholwyr, tiwtoriaid, siaradwyr, mynychwyr ayyb cyn digwyddiadau a dynodi person cyswllt ar y diwrnod i dderbyn pryderon
- **Cynnal hyfforddiant** i staff ar adnabod/atal aflonyddu a'r broses gwyno

**Adrodd am aflonyddu rhywiol**

Rydym yn annog unrhyw un i adleisio pryder cyn gynted â phosibl. Gellir adrodd:

- yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog neu Gadeirydd y Gymdeithas
- trwy e-bost at y Prif Swyddog neu Gadeirydd y Bwrdd
- i'r person dynodedig ar y safle mewn digwyddiad

Gellir adrodd yn ddienw lle bo'n ymarferol, ond gall hyn gyfyngu ar allu'r Gymdeithas i ymchwilio. Byddwn yn trin manylion personol a sensitif yn gyfrinachol o dan gyfraith diogelu data. Er hyn, efallai y bydd yn rhaid i'r Gymdeithas rannu gwybodaeth angenrheidiol i ddiogelu unigolion neu i gydymffurfio â'r gyfraith.

**Ymateb i Gwŷn a Gwybodaeth**

Bydd y Gymdeithas yn cydnabod derbyn y gwŷn mewn 2 ddiwrnod gwaith lle bo modd gan gymryd camau diogelu (e.e. addasu trefniadau eistedd/ newid panel). Ymchwilir yn deg i gwynion gan gasglu tystiolaeth neu gynnal cyfweliadau cyfrinachol yn ddibynnol ar natur y gŵyn. Cymerir camau disgyblu priodol os canfyddir achos (gall hyn gynnwys dileu aelodaeth).

Cynigir mynediad at gymorth lles (e.e. llinell gymorth, cyfeirio at wasanaethau arbenigol) i'r dioddefwyr ac ystyrir addasiadau rhesymol (e.e. newid dyletswyddau dros dro).

Os bydd ymchwiliad i achos o aflonyddu, bydd y Gymdeithas yn adolygu eu polisi a'u gweithdrefnau.

**Dyddiad:** Mai 2026

**Dyddiad adolygu:** Mai 2029 (oni bai bod ymchwiliad)